

C1. Annog arloesedd yn eich tîm

Crynodeb o'r Uned

Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud ag annog a chefnogi nodi syniadau a'u rhoi ar waith yn ymarferol. Bydd y syniadau cychwynnol yn dod oddi wrth aelodau'ch tîm yn bennaf, gan gynnwys chi'ch hun, a byddant yn canolbwyntio ar

- gynhyrchion a/neu wasanaethau newydd
- gwelliannau i gynhyrchion a/neu wasanaethau sydd eisoes yn bodoli
- gwelliannau i arferion, gweithdrefnau, systemau, ffyrdd o weithio ac ati sydd eisoes yn bodoli o fewn y tîm neu rai'r sefydliad ehangach neu gwsmeriaid neu gyflenwyr.

Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned ar gyfer arweinwyr tîm.

Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac uned **B5. Darparu arweinyddiaeth i'ch tîm** a **C2. Annog arloesedd ym maes eich cyfrifoldeb** yng nghyfres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth annog arloesedd yn eich tîm. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Cyfathrebu
- Arweinyddiaeth
- Adeiladu tîm
- Datrys problemau
- Cymell
- Monitro
- Gwneud penderfyniadau
- Darparu adborth
- Dysgu
- Gwerthfawrogi a chefnogi pobl eraill
- Rheoli risg
- Meddwl yn greadigol

C1. Annog arloesedd yn eich tîm

Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Cymell aelodau'ch tîm, gan gynnwys chi'ch hun, i nodi syniadau ar gyfer cynhyrchion a/neu wasanaethau newydd a gwelliannau.
2. Ymateb yn frwdfrydig i syniadau y mae aelodau'ch tîm wedi'u nodi a darparu adborth adeiladol.
3. Annog aelodau'ch tîm i rannu, trafod a chydweithio wrth ddatblygu syniadau cychwynol.
4. Nodi a dilyn trywydd cyfle i weithio gyda thimau eraill i gynhyrchu a datblygu syniadau.
5. Trafod a chytuno ag aelodau eich tîm ar y syniadau hynny y dylid eu datblygu ymhellach, sut y dylid eu datblygu a'r adnoddau gofynnol.
6. Darparu cefnogaeth, anogaeth ac adnoddau parhaus i aelodau'ch tîm sy'n datblygu ac yn rhoi syniadau ar brawf, a helpu i gael gwared ar unrhyw rwystrau a nodir.
7. Cytuno i roi syniadau ar waith yn ymarferol, ar sail y manteision a'r risgiau a nodir a'r adnoddau gofynnol, pan fydd gennych yr awdurdod i wneud hynny.
8. Cefnogi aelodau'ch tîm wrth iddynt gyflwyno cynigion a chynlluniau ffurfiol i roi syniadau ar waith yn ymarferol i bobl eraill eu cymeradwyo.
9. Goruchwylio'ch tîm wrth iddynt roi syniadau ar waith yn ymarferol, a monitro ac adrodd ar gynnydd.
10. Annog a datblygu creadigrwydd aelodau'ch tîm.
11. Annog aelodau'ch tîm i gymryd risgiau derbyniol wrth ddilyn trywydd arloesedd ac i wneud camgymeriadau a dysgu oddi wrthynt.
12. Sicrhau bod dechreuwyr a datblygwyr unrhyw syniadau sy'n cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus yn derbyn cydnabyddiaeth am eu cyflawniad.

Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn dod o hyd i ffyrdd ymarferol o oresgyn rhwystrau.
2. Byddwch yn annog ac yn cefnogi eraill i ddefnyddio'u galluoedd i'r eithaf.
3. Byddwch yn sicrhau bod amser ar gael i gefnogi eraill.
4. Byddwch yn dangos eich bod yn chwilfrydig i ddysgu pethau newydd a rhoi cynnig arnynt.
5. Byddwch yn cydbwysu risgiau â'r buddiannau a allai ddeillio o gymryd risgiau.
6. Byddwch yn gweithredu o fewn terfynau'ch awdurdod.
7. Byddwch yn mynd ati i herio'r sefyllfa sydd ohoni ac yn ceisio dod o hyd i well dewisiadau.
8. Byddwch yn cydnabod cyflawniadau a llwyddiant pobl eraill.

C1. Annog arloesedd yn eich tîm

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Manteision arloesedd i'ch tîm, y sefydliad cyfan a'i gwsmeriaid
2. Y gwahaniaethau allweddol rhwng creadigrwydd ac arloesedd
3. Sut i sicrhau bod amser ar gael i nodi a datblygu syniadau
4. Sut i gymell pobl i gynhyrchu a datblygu syniadau
5. Sut i ddarparu adborth adeiladol ar syniadau i unigolion
6. Pwysigrwydd cyfathrebu wrth arloesi a sut i annog cyfathrebu yn eich tîm drwyddo draw
7. Y rhwystrau posibl i greadigrwydd a ph'un a gellir cael gwared arnynt/sut gellir cael gwared arnynt
8. Y rhesymau dros ddethol syniadau cychwynnol i'w datblygu ymhellach
9. Sut y gellir datblygu syniadau cychwynnol ymhellach a'u rhoi ar brawf
10. Sut i adnabod a rheoli risg wrth arloesi
11. Sut i ddatblygu cynigion a chynlluniau ffurfiol i roi syniad ar waith yn ymarferol a sut i gefnogi pobl eraill wrth iddynt wneud hyn
12. Sut i ddatblygu creadigrwydd yn eich hun ac ym mhobl eraill
13. Yr adnoddau gofynnol ar gyfer creadigrwydd ac arloesedd, yn arbennig amser
14. Sut i ddysgu oddi wrth gamgymeriadau
15. Sut i adnabod cyflawniadau dechreuwyr/datblygwyr syniadau a roddwyd ar waith yn llwyddiannus

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector

1. Y sector(au) mae'ch sefydliad yn gweithio ynddo/ynddynt

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun

1. Strategaeth eich sefydliad ar gyfer arloesedd, os oes ganddo un
2. Terfynau'ch awdurdod
3. Canllawiau a gweithdrefnau cyfundrefnol ar gyfer datblygu syniadau a'u rhoi ar waith, gan gynnwys i bwy y dylid cyflwyno cynigion a chynlluniau ffurfiol
4. Anghenion eich cwsmeriaid
5. Cyfleoedd i weithio gyda thimau eraill yn eich sefydliad